**PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** **6ed EBRILL 2016**

# RHAGLEN

## DATGAN BUDDIANNAU

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. ETHOLIAD WARD PLASTIRION**

Derbyn datganiad o ganlyniad (copi'n amgaeëdig) ar gyfer yr is-etholiad uchod a gynhaliwyd ar 17eg Mawrth 2016.

3. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – CHWEFROR 2016**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**4. PARTNERIAETH TELEDU CYLCH CYFYNG SIR DDINBYCH**

Awdurdodi Clerc y Dref i drefnu bod y Cyngor Tref yn llunio partneriaeth ar y cyd gyda Chyngor Sir Ddinbych, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Tref Prestatyn a Chyngor Tref Rhuddlan i ddarparu teledu cylch cyfyng yn y Rhyl.

**5. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – GRŴP BUSNES Y RHYL**

Mewn perthynas â chofnod rhif 91 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2il Mawrth 2016 (copi'n amgaeëdig) i benodi Aelod i fynychu cyfarfodydd Grŵp Busnes y Rhyl ar ran y Cyngor Tref.

**6. ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL INTERIM**

Ystyried yn ffurfiol a derbyn yr Adroddiad Archwilio Mewnol Interim (copi'n amgaeëdig).

**7. EITEMAU GAN YR AELODAU**

(i) Y Cynghorydd Ms J. McAlpine – Gofyn am ganiatâd y Cyngor i'r mudiad 'Talking Point' roi cyflwyniad i gyfarfod yn y dyfodol.

(ii) Y Cynghorydd S. H. Ratcliffe – Gofyn am gefnogaeth y Cyngor i wneud cyflwyniadau mewn perthynas â chyflymder traffig ar Gylchfan Sainsburys (A525).

(iii) Y Cynghorydd S. H. Ratcliffe – Dwyn sylw'r Cyngor i sylwadau a dderbyniwyd gan yr Aelod ynglŷn â chyflwr platiau enwau strydoedd yn ward Plastirion.

**8. YMGYNGHORIAD: SWYDDFA BOST PARC HIGHFIELD**

Derbyn gohebiaeth gan Swyddfa'r Post Cyfyngedig (copi'n amgaeëdig).

**9. EITEMAU ER GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**10. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**11. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016 i ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**12. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.